

# GWAITH CYMORTH

RAF  
100



raf100schools.org.uk


## YMGYRCHOEDD CYMORTH A DADLWYTHO O'R AWYR

Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf y dechreuodd awyrennau gario pethau i'w gollwng ar dargedau - yn amlach na pheidio, taflenni propaganda oedd y rhain yn hytrach na bomiau. Nid oedd awyrennau'r Rhyfel Byd Cyntaf yn gallu cario llawer, ac er bod yna ymosodiadau bomio o'r awyr, roedden nhw wedi'u cyfyngu gan faint a phŵer yr awyren.

Erbyn yr Ail Ryfel Byd roedd Prydain, a gwledydd eraill, wedi datblygu awyrennau mwy soffistigedig. Roedd yr awyrennau hyn yn gallu cario llwythi llawer trymach, fel teithwyr, milwyr yn yr awyr, bomiau, bwyd a

chyflenwadau. Yn ystod y rhyfel, byddai'r RAF a lluoedd arfog eraill y Cynghreiriaid yn cyflenwi'r holl lwythi hynny, a'u cyflenwi gyda'r gofal angenrheidiol.

## DADLWYTHO O'R AWYR YN BURMA



**Cyn yr Ail Ryfel Byd, roedd gan Brydain lawer o diriogaethau yn Ne Asia – gan gynnwys India (a Phacistan a Bangladesh erbyn heddiw) a Burma.**

Pan lansiodd Japan ei hymosodiad ar yr Unol Daleithiau yn Pearl Harbour, sbardunodd ymladd yn y Môr Tawel ac Asia. Roedd yr ymladd yn Ne-ddwyrain Asia – Burma – yn arbennig o giaidd ac anodd. Roedd Prydain wedi cynnull llw anferth o Brydain a'r Gymanwlad yn y rhanbarth, gyda milwyr o Brydain, India (yn cynnwys Pacistan a Bangladesh erbyn heddiw) ac Affrica. Un o'r prif broblemau a wynebai'r milwyr oedd yn ymladd oedd cael cyflenwadau bwyd a chyfarpar iddyn nhw. Dim ond trwy'r awyr roedd hi'n bosibl eu cludo, gan fod y Japaneaid yn rheoli'r rhan fwyaf o'r tir. Roedd daearyddiaeth y rhanbarth yn her arall, gan mai

jjngl ydoedd yn bennaf felly doedd yr awyrennau ddim yn gallu glanio. Roedd rhaid gollwng popeth mewn parasiwt felly – bwyd, dŵr a chyfarpar.

Roedd yr RAF yn hedfan yn isel dros y jjngl i ollwng y cyflenwadau. Roedd hedfan yn isel yn beryglus, gan fod perygl iddyn nhw gael eu saethu o'r ddaear, ac fe allen nhw gael damwain oherwydd y coed. Roedd y gwaith yn fwy peryglus hefyd gan ei fod yn cael ei wneud yn y nos yn aml er mwyn i'r gelyn beidio sylwi arnyn nhw, felly doedden nhw ddim yn gweld cystal. Serch hynny, parhaodd yr RAF i ddadlwytho o'r awyr rhwng 1943 a 1945.

The Fourteenth Army, known to many as 'The Forgotten Army', numbered over one million men under arms, the largest Commonwealth army ever assembled. Air lines of communication were crucial: some 615,000 tons of supplies and 315,000 reinforcements were airlifted to and from the front line, frequently by parachuted air drops, and 210,000 casualties were evacuated. The Royal Air Force and the Indian Air Force, supported by carrier-borne Fleet Air Arm aircraft, provided constant offensive bombing sorties (a flying mission), together with fighter cover and essential photo-reconnaissance (taking photographs from the air to gather information) in support of the Army. Towards the end of the War, RAF Liberator aircraft carried out some of the longest operations ever flown to drop mines into the Pacific.' <https://www.burmastar.org.uk/burma-campaign/>

Heb olwg y cyflenwadau hyn o'r awyr, ni fyddai milwyr Prydain a oedd yn ymladd yn Burma wedi goroesi, heb sôn am ymladd y Japanegid yn llwyddiannus yn yr ardal honno.



RAF Dakota dros Burma

## YMGYRCH MANNA

**Yn ddiweddarach yn yr Ail Ryfel Byd, cafodd dadlwythiadau o'r awyr eu defnyddio eto. Roedd yr Almaenwyr wedi goresgyn a meddiannu'r Gwledydd Isel (Gwlad Belg, yr Iseldiroedd a Lwcsembwrg) ym 1940.**

Roedd y Natsïaid yn cymryd bwyd, cynnyrch a nwyddau'r gwledydd hynny'n aml i'w defnyddio eu hunain. Ar ôl i'r Cynghreiriaid oresgyn Normandi, Ffrainc, ym mis Mehefin 1944, i ryddhau Ewrop, dechreuodd y Natsïaid gymryd mwy o gyflenwadau nag erioed gan y bobl leol. Fe dynnon nhw rai o'r amddiffynfeydd dŵr yn yr Iseldiroedd a arweiniodd at lifogydd mawr - y bwriad oedd ei gwneud hi'n anodd i'r Cynghreiriaid symud ymlaen drwy'r ardaloedd hynny, ond cafodd cynaeafau eu dinistrio hefyd. Roedd gaeaf 1944/45 yn galed iawn, ac roedd hyn, ynghyd â'r llifogydd a barbariaeth yr Almaenwyr tuag at y boblogaeth leol (arestio pobl, eu gorfodi i weithio a chymryd yr holl fwyd) yn golygu bod newyn yn realiti.

Erbyn gwanwyn 1945, roedd hi'n ymddangos y byddai holl bobl gorllewin yr Iseldiroedd yn newynu i farwolaeth, yn enwedig gan fod y llifogydd a'r ymladd wedi'i gwneud hi'n anodd iawn i gael unrhyw gyflenwadau. Dechreuodd yr RAF, Lluoedd Canada, Awstralia a'r Unol Daleithiau Ymgynrch Manna. Cafodd bwyd a nwyddau hanfodol eraill eu gollwng gyda pharaswtiau i'r Iseldiroedd - achubwyd bywydau yn llythrennol gan atal pobl y wlad rhag bod yr olaf i farw dan law'r Natsïaid.

*My mother was in Holland during the Second World War. The food situation was so bad that at the end of the war, aged 28, she weighed 6 stone. I know she talked about receiving parcels. In particular she was given a small tin of condensed milk which she had to eat all of, because she was so malnourished, with the family looking on hungrily.*

*I looked up the drop points for the operation. My mother lived in Rotterdam very close to the Kralingse Plas (a plas is a small area of water) and this was one of those drop areas. I have walked or cycled around the plas a number of times. My uncle lived in The Hague and had to hide in his cellar to avoid being taken by the Nazis.*

*There is a plaque about the airdrop in a photo that hangs on our wall. The caption at the bottom says 'food, peace and freedom. 29th April to the 5th May 1945.' The food drop probably saved my mother's life.*

Gerard Hallows, Hyfforddwr Addysgu a Dysgu, Stimulating Physics Network

## AWYRGLUDIAD BERLIN

Erbyn diwedd 1945, roedd Cynghreiriaid yr Ail Ryfel Byd wedi dechrau anghytuno â'i gilydd. Roedd y rhaniad yn ddaearyddol yn ogystal ag ideolegol, a chafodd Ewrop ei rhannu'n ddwy. Cafodd yr Almaen ei rhannu'n bedwar rhanbarth rheoli, ond roedd y brifddinas, Berlin, wedi'i lleoli yn yr ardal Sofietaidd a'r ddinas ei hun wedi'i rhannu yn bedwar parth (Prydain, Ffrainc, yr Unol Daleithiau a'r Undeb Sofietaidd).

Erbyn 1946, roedd Cynghreiriaid y Gorllewin - Prydain, Ffrainc a'r Unol Daleithiau - a oedd yn rheoli tri o'r parthau, yn gweithio ar gynlluniau i gefnogi economi'r Almaen ac ailadeiladu'r wlad. Doedd y Sofietaid ddim yn hapus â'r cydweithredu hwn, ac roedden nhw am weld system economaidd wahanol.

Mewn ymgais i gymryd yr holl ddinas a'i gwahanu oddi wrth Gynghreiriaid y Gorllewin, dechreuodd y Sofietaid

gyfyngu ar symudiadau i'r ddinas ar drên ac ar y ffyrdd; fe gyflwynon nhw gyfyngiadau hyd yn oed ar yr afon a'r camlesi o'r parthau Gorllewinol i'r parthau Sofietaidd.

Pan gyflwynodd Cynghreiriaid y Gorllewin fersiwn newydd o arian cyfredol yr Almaen ym 1948, ymatebodd y Sofietaid drwy gyflwyno gwarchae llwyr ar y ddinas, felly ar 24 Mehefin, cafodd pob mynediad ar dir a dŵr i Orllewin Berlin drwy dir Sofietaidd ei atal yn gyfan gwbl. Fe wnaethon nhw ddatgysylltu'r trydan hyd yn oed.

Ar y pwynt hwnnw, roedd gan bobl Gorllewin Berlin gwerth 36 diwrnod o fwyd a gwerth 45 diwrnod o lo. Roedd Cynghreiriaid y Gorllewin yn benderfynol o beidio â throi eu cefn ar bobl Berlin. Doedd rhyfel arall ddim yn opsiwn - roedd gan y Sofietaid lawer mwy o filwyr na'r Gorllewin ac, ar ôl yr Ail Ryfel Byd, doedd dim awydd cael rhyfel arall.

Er na allai'r Cynghreiriaid wneud llawer o ran cael mynediad i Berlin ar y tir, roedd pob ochr wedi cytuno ar dri choridor awyr 20 milltir o led ar 30 Tachwedd 1945; byddai'r rhain yn darparu mynediad rhydd i Berlin, ac roedd popeth wedi ei gytuno ar bapur. Cyn belled na fyddai'r Cynghreiriaid yn hedfan awyrennau bomio neu awyrennau ymosod i mewn, ni allai'r Sofietaid ddadlau am ddefnyddio'r coridorau awyr na'u bod yn bygwth rhyfel.

Penderfynodd y Cynghreiriaid y bydden nhw'n defnyddio'r coridorau awyr i gael cyflenwadau i'r ddinas. Roedd dadlwythiadau cyflenwadau'r Ail Ryfel Byd nawr yn ymddangos yn ymdrech ddigon tila. Un fantais dros ddadlwythiadau awyr y gorffennol oedd y gallai'r awyrennau lanio yn Berlin; fodd bynnag, er mwyn parhau i gludo'r cyflenwadau, allen nhw ddim glanio am amser hir. Dechreuodd yr awyrgludiad ar 14 Mehefin 1948.

**Roedd tua 2 filiwn o bobl yn byw yn Berlin adeg y gwarchae. Er mwyn cadw'r trigolion hynny'n fyw, dyma faint o fwyd oedd ei angen bob dydd:**

**900** tonnall o datws

**641** tonnall o flawd

**106** tonnall o gig a physgod

**105** tonnall o rawnfwydydd

**Roedd hyn yn gyfanswm o tua 1,800 i 2,000 tonnall o fwyd.**

Y prif feysydd glanio a ddefnyddiwyd yn Berlin oedd Tempelhof yn y sector Americanaidd, Gatow ar afon Havel yn y sector Prydeinig, a Tegel, a adeiladwyd gan beirianwyr y fyddin a gwirfoddolwyr o Berlin mewn 49 diwrnod y tu mewn i'r sector Ffrengig.

Cafodd tua **45 y cant** o'r bwyd a'r cyflenwadau a anfonwyd i Berlin eu cludo gan awyrennau Prydain.

Yn ystod cyfnod prysuraf yr ymgyrch, ar 16 Ebrill 1949, roedd un o awyrennau'r Cynghreiriaid yn glanio yn Berlin **bob munud**.

Roedd y peilotiaid a'r criwiau awyr yn dod o Awstralia, Canada, De Affrica a Seland Newydd hefyd.

Cafodd **394,509 tonnall (400,821 tonnall)** o fwydydd, glo a chyflenwadau eu cludo gan **689** o awyrennau milwrol a sifil - **441** o rai **UDA**, **147** o rai'r **RAF** a **101** o rai sifil **Prydain** - yn ystod yr holl awyrgludiad.

Yn ogystal, roedd yr RAF yn cludo pobl allan o Berlin os oedden nhw'n cael eu hystyried fel pobl agored i niwed neu fod angen cymorth meddygol arnyn nhw, yn cynnwys miloedd o blant.


Costiodd yr awyrgludiad **\$350 miliwn** i'r Unol Daleithiau, **£17 miliwn** i'r DU a **150 miliwn Deutschmark** i Orllewin yr Almaen.

Treuliodd awyrennau Prydain dros **210,000 o oriau** yn yr awyr, sy'n gyfwerth â **24 blynedd**, gan hedfan dros **30 miliwn o filltiroedd**, sy'n gyfwerth â hedfan i'r lleuad ac yn ôl 63 gwaith.

# GWAITH CYMORTH

Yn ogystal â chludo'r holl nwyddau a'r cyflenwadau i Berlin, byddai awyrennau Prydain yn dod â nwyddau'r Almaen allan fel y gallai economi'r wlad ddechrau codi ar ei thraed eto. Ar ôl i'r Cynghreiriaid lwyddo i sicrhau bod Berlin yn gallu parhau i weithredu, hyd yn oed drwy'r gaeaf, dechreuodd y Sofietaid weld nad oedd eu

gwarchae'n gweithio. Ar 12 Mai 1949 cododd y Sofietaid y gwarchae. Roedd hi'n bosibl cludo popeth i mewn ac allan o Berlin dros y tir eto (er bod yr awyrgludiad wedi parhau am ychydig fisoedd wedyn nes ei bod hi'n amlwg ei bod hi'n bosibl cludo popeth drwy ddull arall).





## YMGYRCH BUSHEL – ETHIOPIA

Yn y degawdau ar ôl Awyrgludiad Berlin, roedd hi'n dal yn bwysig cael cyflenwadau i leoedd anodd. Ethiopia yw un o'r gwledydd hynaf yn rhanbarth Affrica. Yn ystod yr ugeinfed ganrif roedd yna ryfel cartref a sychder mawr yno. Erbyn dechrau'r 1980au, roedd y ddau ffactor yma wedi arwain at newyn eang; ledled y wlad roedd miliynau o bobl (o boblogaeth o dros 32 miliwn) yn newynu. Cyflwynodd newyddiadurwr y BBC adroddiad o'r rhanbarth yn dangos lluniau o bobl yn marw ac aeth y lluniau hyn i bedwar ban byd.

Ymatebodd y cerddor o Brydain, Bob Geldof, i'r newyn – drwy drefnu sengl a chyngerdd elusennol – Band Aid a Live Aid. Yn hanfodol, fodd bynnag, er bod arian yn cael ei godi i helpu pobl, roedd angen cludo bwyd a chymorth i ardaloedd pellennig o hyd, gyda'r rhain yn ardaloedd mynyddig anodd eu cyrraedd yn aml.

Cyn i'r seren bop fod yn rhan o'r cyfan, roedd llywodraeth Prydain wedi bod yn ymyrryd drwy'r RAF. Gan gydnabod ei chyfrifoldebau a'i galluoedd rhyngwladol, awdurdododd y llywodraeth yr RAF i fod yn un o'r prif ddulliau o ddarparu cymorth a chefnogaeth. Roedd hanes yr RAF o gludo nwyddau a chyflenwadau i ardaloedd anodd yn hanfodol i'r ymgyrch hon – Ymgyrch Bushel.

Cyrhaeddodd chwe awyren Hercules y brifddinas, Addis Ababa, ym mis Tachwedd 1984. Roedd yr Hercules yn gallu cario llwythi anferth a glanio ar leiniau glanio byr, neu hyd yn oed beidio â glanio o gwbl – dim ond cyffwrdd y ddaear a gwthio'r



nwyddau allan o gefn yr awyren ac esgyn i'r awyr unwaith eto os oedd angen. Roedd criwiau Prydain yn cynnal pedair i bum taith gymorth y dydd.

Bu'r RAF yn cludo bwyd a chyflenwadau meddygol a llety dros dro a gweithwyr cymorth o dro i dro hefyd. Byddai cyflenwadau'n cael eu

hedfan i'r brifddinas, yna byddai'r Hercules yn eu cludo ar draws cannoedd o filltiroedd i ble bynnag roedd eu hangen.

**Erbyn diwedd Rhagfyr 1987 roedd yr RAF wedi cynnal 2,152 taith i ddarparu cymorth i bobl Ethiopia.**

## CYNLLUNIO DADLWYTHIADAU O'R AWYR, AWYRGLUDIADAU A DADLWYTHIADAU CYMORTH

Dydy cynllunio dadlwythiad o'r awyr neu ddadlwythiad cymorth ddim mor syml ag y mae'n ymddangos ar yr olwg gyntaf. Mae'n rhaid ystyried nifer o faterion.



Mae popeth sy'n cael ei ollwng o awyren yn gallu bod yn beryglus os nad yw'r cyfan wedi'i gynllunio'n dda. Yn Burma a'r Gwledydd Isel, roedd yn rhaid i'r cyflenwadau gyrraedd mewn un darn a pheidio â ffrwydro wrth lano neu lano mor gyflym fel y gallen nhw frifo pobl. Mae hyn yn golygu bod angen i rywun ddeall y ffiseg sy'n gysylltiedig â phethau'n cwmpo a chael eu gollwng. Mae angen gwybod mäs y gwrthrych(au), ac uchder y gollwng, cyfeiriad y gwynt (i sicrhau bod y pethau sy'n cael eu gollwng yn mynd i'r lleoliad

cywir) a maint y parasiwt neu faint y paled (yn achos pethau sy'n cael eu gwthio o gefn awyren).

Mae cywirdeb dadlwythiadau yn andros o bwysig os ydyn nhw'n dod ar barasiwt - ni ddylai cyflenwadau hanfodol fynd i ddwylo'r gelyn mewn rhyfel, na glanio mewn afon neu fynd yn sownd mewn coed uchel os ydyn nhw'n gyflenwadau i achub bywyd pobl gyffredin. Y ffordd orau o sicrhau cywirdeb yw hedfan yn isel ond mae hyn yn beryglus i'r peilot a'r criw - fe allai'r gelyn saethu atyn nhw neu fe allen nhw hedfan yn agos iawn at rwystrau, fel coed a mynyddoedd. Neu fe allen nhw dynnu sylw'r gelyn bod yna gyflenwadau ar y ffordd ac achosi ymladd.

Dydy'r cymorth ddim yn cyrraedd ar barasiwt bob amser; weithiau, mae'n bosibl cludo cymorth drwy'r awyr i leiniau glanio, ond dim ond cludo'r

cyflenwadau all yr awyrennau ei wneud - dydyn nhw ddim yn gallu stopio. Mae hyn yn digwydd weithiau mewn rhyfeloedd pan fydd dadlwytho o'r awyr yn rhan o ymgyrch ddynarol ar gyfer pobl gyffredin sydd wedi'u hamgylchynu gan ymladd, neu mewn rhanbarthau mynyddig lle nad oes digon o le i lano na llain lano. Yn yr achosion hyn, mae angen i'r tîm sy'n darparu'r cymorth wybod pryd i wthio'r paledau oddi ar yr awyren heb iddyn nhw gael eu dinistrio wrth daro'r ddaear, a heb iddyn nhw effeithio ar yr awyren sy'n dal i symud.

Dros y degawdau, mae'r RAF a lluoedd awyr eraill wedi datblygu cyfarpar a thechnegau ar gyfer cludo cyflenwadau drwy'r awyr. Os ydych chi'n sefyll ar gefn awyren Hercules neu airbus C17 mae'r llawr a'r waliau wedi'u gorchuddio mewn bachau, clymau metel a nifer o declynnau i gludo cyfarpar o amgylch y byd a glanio'n ddiogel.

## BOD YN Y MAES RHYNGWLADOL

Ers yr Ail Ryfel Byd, mae'r DU wedi bod yn un o aelodau sylfaenol y Cenhedloedd Unedig ac yn un o bum gwlad yn unig sydd â lle parhaol ar y Cyngor Diogelwch. Mae'r DU yn un o aelodau gwreiddiol NATO hefyd ac yn aelod o'r G7 - y saith gwlad gyfoethocaf yn y byd. Mae yn y deg uchaf o ran gallu milwrol. Ond mae'r DU, fel arweinydd byd, wedi newid ers 1945, pan roedd dal yn wlad gydag Ymerodraeth.

Darparu cymorth mewn digwyddiadau byd-eang drwy gymorth dyngarol a gweithredu yw un o'r ffyrdd y mae'r DU yn dangos ei statws parhaus fel pŵer rhyngwladol blaenllaw. Drwy allu gweithredu mewn argyfwng a helpu pobl a gwledydd ledled y byd mae Prydain yn gallu parhau i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth ryngwladol fel dylanwadwr a chyfranogwr.

Gall helpu gwledydd gyda chymorth dyngarol helpu i feithrin neu gryfhau cyfeillgarwch rhyngwladol, fel cymorth yn dilyn daeargryn Nepal neu ar ôl corwynt yn y Caribî. Mae hefyd yn helpu i sicrhau bod llawer o'i staff milwrol yn parhau i fod yn arloeswyr ac yn gallu addasu ac ymateb i heriau newydd wrth ymateb i bob math o amgylchiadau ac anghenion.

## DEFNYDDIO'R WYBODAETH HON

Mae'n bosib cyfuno'r wybodaeth hanesyddol a ffeithiol hon gyda'r ffilm gyflwyno a'r adnoddau o'r adran adnoddau i ystyried rhai syniadau creadigol mewn clwb ysgol/clwb anffurfiol, neu ar gyfer gwers sy'n fwy seiliedig ar y cwricwlwm.

Isod, mae yna syniadau a chwestiynau ymholi a gallai'r deunyddiau hyn eich helpu gyda'r rhain.

Yn ogystal â'r wybodaeth hanesyddol uchod, mae astudiaethau achos a gwybodaeth ychwanegol ar gael yn yr adran adnoddau. Mae'r rhain yn cynnwys bywgraffiadau ac astudiaethau achos ar dechnoleg awyrennau.

## CWESTIYNAU ALLWEDDOL I'W HARCHWILIO MEWN UNRHYW LEOLIAD:

- Pam ei bod hi'n anodd cael bwyd i bobl yn yr Iseldiroedd ym 1945?
- Pam roedd milwyr Prydain yn Burma yn ystod yr Ail Ryfel Byd?
- Pam mai Awyrgludiad Berlin oedd yr unig opsiwn i'r Cynghreiriaid ym 1948?
- Beth yw'r problemau wrth geisio cael cyflenwadau i ardaloedd mynyddig?
- Beth yw'r peryglon wrth ollwng pethau brau o'r awyr a sut mae goresgyn y peryglon hyn?
- Sut gallai cymorth dyngarol ar gyfer digwyddiadau diweddar effeithio ar amlygrwydd y DU dramor?

## SUT I DDEFNYDDIO'R DEUNYDD HWN MEWN CLWB HANES NEU GLWB AMSER CINIO/AR ÔL YSGOL/CLWB ANFFURFIOL

Mae'r syniadau hyn yn addas ar gyfer cymysgedd o grwpiau oedran a galluoedd. Mae'n bosibl eu defnyddio gyda'r map rhyngweithiol i ddechrau ymchwiliad hanesyddol lleol hefyd.

### DECHREUWCH DRWY DDANGOS Y FFILM: *AIR DROPS*

Cwestiwn allweddol:

***Gofynnwch i'r myfyrwyr sut gallai gwahanol fathau o ddadlwythiadau o'r awyr fod yn addas i wahanol leoedd. Yna gofynnwch iddyn nhw gyflwyno'u casgliadau mewn rhai o'r ffyrdd canlynol:***

(gallech ddefnyddio rhai o'r cwestiynau o'r bocs i'w cael i feddwl)

- Gwnewch fap o'r byd yn dangos dadlwythiadau o'r awyr sy'n cael eu trafod yn y wybodaeth a ddarparwyd
- Stori bapur newydd i gylchlythyr yr ysgol/grŵp ar un o'r dadlwythiadau a'r materion sydd angen eu hystyried cyn ei gynnal
- Arddangosiad ar gyfer hysbysfwrdd yr ysgol/dosbarth/grŵp am rôl yr RAF mewn gweithgareddau dyngarol
- Cyfres o gartwnau sy'n dangos y gwahanol fathau o ddadlwythiadau o'r awyr

**Gwaith Estynedig:** Ewch ati i ddysgu mwy am weithgareddau dyngarol diweddar yr RAF.

Nawr, defnyddiwch rywfaint o'r wybodaeth rydych wedi'i chasglu i ddechrau ymchwiliad i hanes lleol maes awyr milwrol yn eich ardal chi - gallwch wneud hyn gan ddechrau gyda'r map rhyngweithiol. Edrychwch i weld pa feysydd awyr milwrol sydd wedi'u defnyddio ar gyfer ymgyrchoedd dyngarol neu weithgareddau cyflenwi - pa wybodaeth allwch chi ddod o hyd iddi amdany'n nhw? Casglwch wybodaeth am y maes awyr. Pa wybodaeth neu ddealltwriaeth arall o gyfnod hanesyddol sydd eu hangen i adrodd stori'r maes awyr?

### CANLLAWIAU AR SUT Y GALLECH DDEFNYDDIO'R DEUNYDD HWN MEWN GWERS AM:

1. Yr Ail Ryfel Byd neu Brydain yn y Byd ers 1945
2. Technoleg Rhyfela/Rhyfel a Chymdeithas Prydain

## 1. YR AIL RYFEL BYD NEU BRYDAIN YN Y BYD ERS 1945

### 11 oed a hŷn

Gallwch ddefnyddio'r syniad am wers yma fel dull gwahanol o addysgu am yr Ail Ryfel Byd; gallwch ei gyfuno â gwersi eraill er mwyn ystyried y rhyfel hwn neu ei ddefnyddio fel gwaith cartref estynedig.

Cwestiwn allweddol a awgrymir:

### ***Pam roedd dadlwythiadau bwyd a chyflenwadau o'r awyr yn angenrheidiol yn ystod yr Ail Ryfel Byd?***

Dangoswch y ffilm – *Air drops*

Defnyddiwch y wybodaeth hanesyddol:

Ar fap, dangoswch Burma (gallwch ofyn i'r myfyrwyr ymchwilio i dirwedd jynglau Burma; mae yna luniau yn yr adran adnoddau).

Gofynnwch i'r myfyrwyr feddwl beth oedd yr anawsterau wrth ollwng cyflenwadau o'r awyr – gan ysgrifennu eu hatebion (neu eu rhoi mewn tabl dwy golofn, gyda'r anawsterau wedi'u rhifo a'u rhestru mewn trefn yn y golofn gyntaf).

Gan ddefnyddio'r wybodaeth am ddadlwythiadau technegol, gofynnwch i'r myfyrwyr feddwl am sut i oresgyn y problemau (gofynnwch iddynt restru atebion posibl i anawsterau penodol yn ail golofn y tabl, nesaf at y golofn gyntaf).

Gwnewch yr ymarfer eto gan ddefnyddio Ymgrych Manna. Arweiniwch y drafodaeth am ba ymgrych oedd anoddaf a pham.

Nawr, gofynnwch i'r myfyrwyr greu diagram pry cop sy'n dangos gwahanol elfennau trefnu dadlwythiad o'r awyr yn ystod rhyfel.

Gan ddefnyddio'r dyfyniad o'r adran ar Ymgrych Manna, gofynnwch i'r myfyrwyr a ydyn nhw'n credu ei bod hi'n werth cynnal dadlwythiadau o'r awyr.

Gorffennwch drwy ofyn sut byddai'n bosib defnyddio dadlwythiadau o'r awyr ar gyfer digwyddiadau yn y DU a thramor heddiw.

**Gwaith estynedig:** Edrychwch ar weithgaredd STEM ar gyfer gollwng pethau o'r awyr - allwch chi roi cynnig ar y gweithgaredd?



## 2. TECHNOLEG RHYFELA/RHYFEL A CHYMDEITHAS PRYDAIN

### 11 oed a hŷn

Isod, rydym yn awgrymu sut i ddefnyddio'r wybodaeth a'r ffilm i egluro sut mae cymorth dyngarol a dadlwythiadau o'r awyr yn rhan o rôl y DU fel pŵer rhyngwladol modern. Mae'n bosib defnyddio'r deunyddiau i gefnogi addysgu ehangach ar y thema hon neu fel gwers unigol.

Fel arall, mae'n bosib defnyddio'r adnoddau i ddechrau ymchwiliad i sut mae technoleg awyrennau wedi'i datblygu ar gyfer dadlwythiadau o'r awyr, e.e. parasiwtiau, paledau llwytho ac ati.

*Yn ogystal â'r adnoddau yma gallech gynnwys: gwybodaeth am NATO, y wybodaeth am y Cenhedloedd Unedig ac erthygl fanwl ar Awyrgludiad Berlin, sydd i gyd yn yr adran adnoddau.*

Cwestiwn allweddol a awgrymir:

### **Ydy cymorth dyngarol yn gallu bod yn ffordd o ddangos grym?**

Dangoswch y ffilm – *Air drops*

Rhannwch y wybodaeth am Awyrgludiad Berlin.

Gofynnwch i'r myfyrwyr drefnu'r wybodaeth er mwyn gallu gweld yn fras faint o arian wnaeth Prydain ac America wario ar helpu'r 2 filiwn o bobl yn Berlin.

'Pe na bai'r Cynghreiriaid wedi ymateb i'r gwarchae fe fyddai'r Sofietaid wedi cyfeddiannu Gorllewin Berlin.'

Gofynnwch i'r myfyrwyr ddamcaniaethu beth fyddai'r gost wleidyddol pe bai hyn wedi digwydd?

Gan ddefnyddio'r wybodaeth o'r adran adnoddau:

Disgrifiwch rôl y DU yn NATO a'r Cenhedloedd Unedig.

Ydyn nhw'n gallu gweld perthynas rhwng rolau'r DU yn y sefydliadau hyn a'i chyfraniad i rywbeth fel Ymgyrch Bushel?

Gofynnwch i'r myfyrwyr a ydyn nhw'n credu bod y rolau hyn yn rhoi'r grym i'r DU neu a ydyn nhw'n gofyn i'r DU ddangos cyfrifoldeb.

Mae'r DU yn y deg uchaf o ran grym milwrol – sut mae dangos y grym hwn ar adeg o heddwch?

Mewn grwpiau, gofynnwch i'r myfyrwyr ddadansoddi'r cwestiwn canlynol er mwyn ei drafod mewn dadl, gan ddefnyddio tystiolaeth ar gyfer eu dadleuon: 'Ydy hi'n bwysig bod cymorth dyngarol yn gysylltiedig â grym rhyngwladol - neu ydy'r canlyniadau (helpu'r rhai mewn angen) yn golygu nad yw'r bwriad (y cymhelliant sy'n sail i gamau gweithredu) yn bwysig?

Gorffennwch drwy bleidleisio ar y cwestiwn.

**Gwaith estynedig:** Ewch ati i ddysgu mwy am sut mae'r RAF wedi addasu ei awyrennau ar gyfer dadlwythiadau o'r awyr ac ymgyrchoedd cymorth dyngarol.

### **GWEITHGAREDD STEM**

Mae'r gweithgaredd STEM cysylltiedig wedi'i gynllunio i ddangos agwedd ar dechnoleg sy'n dangos i ryw raddau sut roedd pobl yn meddwl yn y gorffennol. Mae'r gweithgaredd STEM yn cynnwys adeiladu model dadlwytho o'r awyr gan ei ddefnyddio i ymchwilio i gludo pecyn o gyflenwadau mewn modd cywir a manwl. Ar y cyd ag athro gwyddoniaeth, helpwch y myfyrwyr i ymchwilio i'r ffactorau y mae angen i beilotiaid eu hystyried wrth ddadlwytho cyflenwadau o'r awyr.